



Ein cyf/Our ref: MA L RE 607 17

Dai Lloyd AC – Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Hydref 2017

Annwyl Dai,

Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

Ar ôl i Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) gael ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru heddiw, dyma gopi o'r Datganiad o Fwriad y Polisi i wneud Is-ddeddfwriaeth o dan y Bil. Caiff y ddogfen hon ei darparu i gefnogi proses graffu'r Pwyllgor o'r Bil.

Edrychaf ymlaen at ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Rebecca

Rebecca Evans AC/AM
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BIL IECHYD Y CYHOEDD (ISAFBRIS AM ALCOHOL) (CYMRU)

Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer
Is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud
o dan y Bil hwn

Hydref 2017

BIL IECHYD Y CYHOEDD (ISAFBRIS AM ALCOHOL) (CYMRU)

DATGANIAD O FWRIAD Y POLISI AR GYFER IS-DDEDDFWRIAETH

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r bwriad polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddai Gweinidogion Cymru yn cael eu grymuso i'w deddfu, neu y byddai'n ofynnol iddynt ei deddfu, o dan ddarpariaethau Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) (y Bil). Fe'i paratowyd er mwyn cynorthwyo pwyllgorau wrth graffu ar y Bil a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil, y Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer pennu safbris ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru gan fanwerthwyr alcohol, ac yn ei gwneud yn drosedd i werthu neu gyflenwi alcohol am bris llai na hynny. Mae'r Bil yn cynnig:

- Y fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafbris cymwys am alcohol drwy luosi canran cryfder yr alcohol, ei gyfaint a'r isafbris uned
- Pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth i bennu'r isafbris uned
- Sefydlu gweithdrefn orfodi dan arweiniad awdurdodau lleol â phwerau i erlyn ac i roi hysbysiadau cosb benodedig
- Pwerau mynediad i Swyddogion Awdurdodedig awdurdodau lleol a throedd o rwystro'r swyddogion hynny.

Er hwylustod, mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth ar wahân ar gyfer pob darpariaeth yn y Bil sydd ynghlwm ag is-ddeddfwriaeth, er y gallai rhai o'r rhain yn y pen draw gael eu cyfuno a'u trafod mewn un set o reoliadau.

Mae cynnwys y ddogfen hon yn cyfateb i'r wybodaeth a ddarperir ym Mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol.

Mae adran 28 o'r Bil yn darparu bod darpariaethau penodol yn dod i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol. Bydd y darpariaethau eraill yn y Bil yn cychwyn drwy Orchymyn.

Wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y darpariaethau'n berthnasol, yn ddilys ac yn gymesur.

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â	Nodi Isafbris Uned, at ddibenion y Bil.
ADRAN	Adran 1(1)(a)
GWEITHDREFN	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
<p>Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn pennu'r Isafbris Uned at ddibenion y weithdrefn isafbris uned sy'n cael ei chynnig yn y Bil. Bydd yr isafbris uned, ynghyd â chryfder yr alcohol a'i gyfaint, yn rhan o'r fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafbris uned cymwys i fanwerthwyr gyflenwi alcohol yng Nghymru. Y fformiwla sy'n cael ei chynnwys yn adran 1 o'r Bil yw: $I \times Cr \times Cy - I$ yw'r isafbris uned a bennir yn y rheoliadau at ddibenion y Bil.</p> <p>Fe'i hystyriwyd yn briodol dyrannu'r pŵer i bennu'r isafbris uned ar gyfer cyflenwi alcohol yng Nghymru i Weinidogion Cymru am resymau hyblygrwydd, prydlondeb a chywirdeb. Drwy wneud hynny, bydd modd sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu adolygu a gosod y pris a ystyrir fwyaf priodol ar y pryd, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn sicrhau cydbwysedd rhwng arwyddocâd cydnabyddedig y mater a'r gallu a'r hyblygrwydd i ymateb yn y ffordd fwyaf effeithiol i unrhyw newid perthnasol mewn amgylchiadau economaidd a chymdeithasol.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
Bydd y rheoliadau'n nodi'r isafbris uned am alcohol a bydd ei angen i gyfrifo'r isafbris cymwys ar gyfer cyflenwi alcohol yng Nghymru.	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
Er mwyn gallu cyfrifo'r isafbris cymwys ar gyfer cyflenwi alcohol yng Nghymru, yn unol â'r fformiwla a nodir yn adran 1 o'r Bil.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidogion ac ati)	
<p>Bydd yr isafbris uned yn cael ei bennu yn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon.</p> <p>Yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n ategu'r Bil, defnyddir isafbris uned enghreifftiol o 50c i ddangos yr effeithiau a ragwelir o osod isafbris uned (ee ar ganlyniadau iechyd megis marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol a'r derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol). Fodd bynnag, mae'r dogfennau hyn hefyd yn nodi'n glir y gallai'r isafbris uned fod yn uwch neu'n is na'r swm hwn.</p> <p>Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar Fil drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) yn 2015. Roedd y Bil drafft hefyd yn nodi y byddai'r isafbris uned am alcohol yn cael ei bennu mewn rheoliadau.</p>	

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Bil drafft, cyhoeddwyd Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hefyd. Roeddent yn cynnwys dadansoddiad a wnaed gan Brifysgol Sheffield yn 2014 ar yr effeithiau wedi'u modelu o lefelau isafbris uned gwahanol. Mae'r dadansoddiad hwn yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd. Nid oedd modd diweddarau'r model yn gynharach gan fod Prifysgol Sheffield yn defnyddio data hunangofnodedig ar lefelau yfed alcohol o Arolwg Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017. Mae disgwyl i'r dadansoddiad diweddaraf gan Brifysgol Sheffield gael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2018. Bydd y dadansoddiad diweddaraf, ynghyd â ffactorau perthnasol eraill, yn cael eu defnyddio fel sail i benderfyniadau ar lefel yr isafbris uned i'w bennu mewn rheoliadau.

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â	Parhau â darpariaethau isafbris y Bil.
ADRAN	Adran 22(2)
GWEITHDREFN	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fyddai'n galluogi'r darpariaethau isafbris i barhau, ar ôl diwedd cyfnod o bum mlynedd.	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
<p>Mae adran 22(1) o'r Bil yn darparu y bydd y darpariaethau isafbris (fel y diffinnir yn adran 22(4)) yn cael eu diddymu ar ôl chwe blynedd gan ddechrau ar yr adeg y daw adran 2 i rym oni bai y caiff rheoliadau eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn darparu fel arall. Bydd adran 2 yn cyflwyno'r drosedd o werthu a chyflenwi alcohol am bris sydd islaw'r isafbris cymwys yng Nghymru.</p> <p>Pe byddai Gweinidogion Cymru yn penderfynu y dylai'r darpariaethau isafbris barhau, mae'r pŵer yn adran 22(2) yn eu galluogi, gyda chymeradwyaeth y Cynulliad, i wneud rheoliadau yn darparu ar gyfer eu parhad.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
Yn unol ag adran 21 o'r Bil, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu adolygu gweithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth a gwneud rheoliadau pe byddent yn penderfynu y dylai'r darpariaethau isafbris barhau. Heb y rheoliadau hyn, bydd y darpariaethau yn y Bil yn cael eu diddymu ar ôl chwe blynedd o'r adeg pan ddaw adran 2 o'r Bil i rym.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidogion ac ati)	
<p>Roedd yr ymgynghoriad ar Fil drafft lechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) yn 2015 yn gofyn a ddylai Llywodraeth Cymru adolygu lefel gychwynnol yr isafbris uned i gynnal ei effeithiolrwydd. Roedd y mwyafrif helaeth o'r rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, p'un a oeddent yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig, yn dweud pe byddai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno, y dylai lefel yr isafbris uned a osodir gael ei hadolygu.</p> <p>Yn ogystal â'r ymatebion a gafwyd ynghylch adolygu'r ddeddfwriaeth, awgrymwyd y dylai'r Bil hefyd gynnwys cymal machlud fel bod modd caniatáu, ar ôl amser penodol ac yn dilyn gwerthusiad manwl, os canfyddir nad yw'r ddeddfwriaeth yn effeithiol, i'r ddeddfwriaeth beidio â chael effaith.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â	Darpariaethau yr ystyriwyd eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus pe byddai'r darpariaethau isafbris yn cael eu diddymu ar ddiwedd y cyfnod o chwe blynedd.
ADRAN	Adran 22(3)
GWEITHDREFN	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
<p>Os bydd y darpariaethau isafbris yn cael eu diddymu ar ddiwedd y cyfnod o chwe blynedd, caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth (drwy reoliadau a wneir o dan yr adran hon) y gallant ei ystyried yn angenrheidiol neu'n hwylus o ganlyniad i'r diddymiad hwnnw.</p> <p>Byddai hyn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed. Felly, er enghraifft, pe bai Deddf arall yn croesgyfeirio at ddarpariaethau'r isafbris cyn iddynt gael eu diddymu, gallai'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio i ddileu'r cyfeiriad hwnnw.</p>	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
Bydd y rheoliadau'n sicrhau y byddai diddymu darpariaethau'r isafbris yn gweithredu'n briodol. Er enghraifft, i sicrhau tegwch i'r rheini y mae'r weithdrefn isafbris arfaethedig yn effeithio arnynt drwy wneud unrhyw ddarpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed a ellir ei ystyried yn angenrheidiol neu'n hwylus bryd hynny.	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
Gellir ystyried darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed yn angenrheidiol neu'n hwylus pan fydd yn cael ei ddiddymu.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidogion ac ati)	
Amherthnasol	

GORCHYMYN SY'N YMWNEUD Â	Darparu y daw mwyafrif y darpariaethau yn y Bil i rym ar y cyfryw ddiwrnod a bennir gan y Gweinidog.
ADRAN	Adran 28(2)
GWEITHDREFN	Dim gweithdrefn
DISGRIFIAD O'R GORCHYMYN	
Mae'r Bil yn darparu y bydd mwyafrif ei ddarpariaethau yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn.	
BETH Y GALL Y GORCHYMYN EI GYFLAWNI?	
Bydd y Gorchymyn yn darparu dyddiad ar gyfer pan fydd mwyafrif o ddarpariaethau'r Bil yn dod i rym.	
PAM Y MAE ANGEN Y GORCHYMYN?	
Bydd y Gorchymyn yn sicrhau bod darpariaethau'r Bil yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru. Mae'r pŵer dirprwyedig hwn yn angenrheidiol ac yn briodol gan y bydd yn sicrhau bod modd cychwyn yr un pryd â'r trefniadau pontio a gweithredu, a fydd hefyd yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru i gyd-fynd â'r Bil, ac i'r gwrthwyneb.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidogion ac ati)	
Amherthnasol	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â	Diweddarau darpariaeth o ran yr hyn y mae'n rhaid i ffurflen hysbysiad cosb benodedig ei gynnwys.
DARPARIAETH	Paragraff 4 o Atodlen 1
GWEITHDREFN	Negyddol
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
Mae darpariaeth o ran yr hyn y mae'n rhaid i hysbysiad cosb benodedig ei chynnwys wedi'i gosod ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud darpariaeth atodol, mewn perthynas â chynnwys neu ffurf hysbysiad, drwy reoliadau.	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
Gallai'r rheoliadau hyn ddarparu ar gyfer darpariaethau ategol neu faterion y gallai fod angen eu diweddarau o dro i dro.	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
Gallai amgylchiadau sy'n newid neu arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth olygu ei bod yn ofynnol cael cynnwys neu ffurf ychwanegol neu wahanol i'r hysbysiad. Felly, mae pwerau dirprwyedig atodol yn briodol.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidogion ac ati)	
Amherthnasol	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â	Diwygio swm hysbysiad cosb benodedig.
DARPARIAETH	Paragraff 5(2) o Atodlen 1
GWEITHDREFN	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
Mae'r Bil yn nodi swm cosb benodedig y gellid ei rhoi mewn perthynas â throsteddu o dan adran 2. Y swm yw £200. Mae hefyd yn darparu y gall rheoliadau ddiwygio'r swm hwnnw.	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
Gallai fod angen diwygio swm y gosb o bryd i'w gilydd i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid. Mae, felly, yn addas ar gyfer pŵerau dirprwyedig.	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
Gallai fod angen diwygio swm y gosb o bryd i'w gilydd i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidogion ac ati)	
Yn 2015, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar Fil drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru). Roedd y Bil drafft yn nodi swm y gosb benodedig (sef £200) y cynigir y byddai'n cael ei rhoi mewn perthynas â throstedd o dan adran 2. Mae'r swm penodedig hefyd yn gyson â hynny a bennir mewn deddfwriaeth ddiweddar arall.	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â	Diwygio swm gostyngol hysbysiad cosb benodedig.
DARPARIAETH	Paragraff 9 o Atodlen 1
GWEITHDREFN	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
Mae'r Bil yn nodi swm gostyngol cosb benodedig y gellid ei rhoi mewn perthynas â throseddu o dan adran 2, sef £150. Fodd bynnag, mae hefyd yn darparu y gall rheoliadau ddiwygio'r swm hwnnw.	
BETH Y GALL Y RHEOLIADAU EI GYFLAWNI?	
Gallai fod angen diwygio swm gostyngol y gosb o bryd i'w gilydd i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid. Mae, felly, yn addas ar gyfer pwerau dirprwyedig.	
PAM Y MAE ANGEN Y RHEOLIADAU?	
Gallai fod angen diwygio swm gostyngol y gosb o bryd i'w gilydd i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith a wnaed hyd yn hyn, dogfennau polisi, Datganiadau gan Weinidogion ac ati)	
Yn 2015, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar Fil drafft lechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru). Roedd y Bil drafft yn nodi swm gostyngol y gosb benodedig y cynigir y byddai'n cael ei rhoi mewn perthynas â throsedd a gyflawnir o dan adran 2, sef £150.	